# Gwybodaeth am ryddhau cleifion ar ôl marsupialeiddio crawniad Bartholin

## Ôl-ofal:

- Fe'ch cynghorir i ymolchi mewn dŵr cynnes plaen ddwywaith y dydd am yr ychydig ddyddiau cyntaf ar ôl eich triniaeth.
- Byddwch chi'n profi ychydig o ddolur
  - Cymerwch Paracetamol ac Ibuprofen yn ôl yr angen.
  - Cymerwch Paracetamol yn unig os oes gennych asthma neu anoddefiad i Ibuprofen.
- Os yw pecyn fagina wedi'i fewnosod, cewch wybod pryd y mae angen i hwn ddod allan ac a oes angen i chi drefnu i hyn gael ei wneud yn eich meddygfa neu a fydd apwyntiad yn cael ei drefnu i'w dynnu mewn clinig Gynaecoleg (anfonir hwn atoch drwy'r post).

## Pethau i'w hosgoi am y 4 wythnos nesaf:

- Tamponau/cwpanau mislif, gan y gallant amharu ar iachâd ac achosi haint.
- Defnyddiwch badiau mislif yn lle hynny.
- Unrhyw fath o ryw fagina treiddiol.
- Unrhyw fath o bowdr talc, hylif bath swigod neu gynhyrchion persawrus.

## Cysylltwch â'ch Meddyg Teulu, 111 neu'r Hwb Llawfeddygol os ydych chi'n profi:

- Rhedlif ag arogl annymunol.
- Poen difrifol neu sy'n gwaethygu.
- Anhawster pasio wrin.

## Ewch i'ch Adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf os ydych chi'n profi:

- Gwaedu trwm.

**Rhifau cyswllt allweddol**

Os oes gennych unrhyw bryderon gallwch gysylltu â'ch:

**Meddyg teulu** neu **111**

Ward gynaecoleg yn Ysbyty Athrofaol Cymru (24 awr): **02921 843857**

Hwb Llawfeddygol (7am-7pm Dydd Llun-Dydd Gwener) – **02921 826510** neu **02921 826348**

Fersiwn 1.0 Mai 2026